

# Byd dirgel o dan y ddaear

## Mwynglawdd Cyffty Mine

### A hidden world beneath the ground

#### Allech chi ddychmygu'r daith ddyddiol i'r dyfnderoedd?

Ar ôl cerdded 5 milltir i'r gwaith, byddai'r mwyngloddwyr yn treulio'r diwrnod cyfan o dan y ddaear, yn ymbalfalu yn y tywyllwch gyda chaib a rhaw, gydag ond cannyll fechan yn olau iddynt. Eu gwaith oedd echdynnu'r mwyn plwm o'r gwythiennau tanddaearol.

#### Could you imagine descending daily to work in darkness?

After the 5 mile walk to work, the miners spent the daylight hours deep beneath the ground, scrambling in the near dark, digging the lead ore from ever enlarging caverns with shovels and picks, their only light the glimmer from a single candle.



Argraffiad arlunydd o Fwynglawdd y Cyffty oddeutu 1900  
Artist's impression of Cyffty mine circa 1900


#### Byrhau'r daith i'r gwaith The shortcut to work

Byddai'r mwyngloddwyr yn arbed awr o'r daith i'r gwaith trwy groesi'r afon ar Bont y Cloddwyr ger Rhaeadr Ewynnol. Gallwch weld y bont fodern ar lwybr **Pen yr Allt** sy'n cychwyn o Bont y Pair ger Betws-y-coed.

The miners would save an hour on their walk to work by crossing the river near Swallow Falls on the homemade Miner's Bridge. You can visit the modern bridge on the **Pen yr Allt** trail from Pont y Pair in Betws-y-coed.



Drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
By permission of Llyfrgell Genedlaethol Cymru /The National Library of Wales



Trawsoriad o Fwynglawdd y Cyffty oddeutu 1900  
Cross section of Cyffty Mine circa 1900

#### Ydych chi'n sefyll ar dir cadarn? Are you standing on solid ground?

Mae'r ddaear dan eich traed wedi'i fritho gan dwneli, siafftau, ac ogofâu, wedi i'r mwyngloddwyr ddilyn y gwythiennau plwm trwy'r graig. Yma safai'r offer a oedd yn cludo'r mwyngloddwyr i lawr i'r dyfnderoedd, ond does dim ar ôl o'r modurdy a'r peiriannau weindio bellach.

The ground beneath your feet is still filled with tunnels, shafts and chambers: the earth hollowed out like a swiss cheese as the Victorian miners followed the veins of valuable lead. Today nothing remains of the engine house and winding machinery which once stood on this very spot, and gave access for the miners to the tunnels below.

1. Mwynglawdd Hafna - Unig ffwrnais Gwydir
2. Minera - Gwreiddiau canoloesol
3. Mwyngloddiau Van - Gweithiwyd gyntaf gan y Rhufeiniaid

1. Hafna Mine - Gwydir's only smelter
2. Minera - Medieval roots
3. Van Mines - First exploited by the Romans